Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Awst 2016

Annwyl gyfaill,

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (y Pwyllgor) yn cynnal **ymchwiliad ôl-ddeddfu** i **Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** (y Ddeddf).

Roedd rhagflaenydd y Pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad, y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**, yn gyfrifol am graffu ar y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) cyn iddo gael ei ailenwi a dod yn Ddeddf. Cyflwynodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol **adroddiad ar y Bil** ym mis Tachwedd 2014.

**Cylch gorchwyl**

Bydd y Pwyllgor yn edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu darpariaethau'r Ddeddf a'i effaith hyd yma. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

– I ba raddau y mae'r dull o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwella o ganlyniad i'r rhwymedigaethau yn y Ddeddf?

– Beth yw'r dulliau mwyaf effeithiol o gasglu safbwyntiau a phrofiadau goroeswyr? A oes trefniadau ar waith i gasglu'r profiadau hyn, ac i ba raddau y caiff y wybodaeth ei defnyddio i helpu fel sail i weithredu darpariaethau'r Ddeddf?

– A yw'r rhai sy'n goroesi camdriniaeth yn dechrau profi ymatebion gwell gan awdurdodau cyhoeddus o ganlyniad i'r Ddeddf, yn enwedig y rhai sydd angen gwasanaethau arbenigol?

– A oes gan y Cynghorydd Cenedlaethol ddigon o bŵer ac annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu?

– I ba raddau y mae'r canllaw arfer da i berthnasau iach yn dylanwadu'n llwyddiannus ar y gwaith o ddatblygu dull ysgol gyfan i herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Anfonwch eich safbwyntiau i: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru** erbyn **dydd Gwener 16 Medi 2016**.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i gyfrannu at yr ymgynghoriad, a gwybodaeth am bolisi’r Cynulliad ar ddatgelu gwybodaeth, ar wefan y Cynulliad:

www.cynulliad.cymru/ymgynghoriadau

Yn gywir,

John

John Griffiths AC / AM

Cadeirydd / Chair